**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

**PENSIONS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00pm, DYDD LLUN, 7 HYDREF, 2013**

**2:00pm, MONDAY, 7 OCTOBER, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GWYRFAI,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans**

**(01286 679878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**PENSIONS COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP**

**Plaid Cymru (3)**
Y Cynghorwyr / Councillors
Peredur Jenkins
Dafydd Meurig
W. Tudor Owen

**Annibynnol/Independent (2)**
Y Cynghorwyr/Councillors
Trevor Edwards
John Pughe Roberts

**Rhyddfrydwyr Democrataidd/Liberal Democrats (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Stephen Churchman

**Llais Gwynedd (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Peter Read

**Aelodau Cyfetholedig/Co-opted Members**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret Lyon, Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy /Conwy County Borough Council Representative

Y Cynghorydd/Councillor Hywel E. Jones, Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council Representative

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2013 fel rhai cywir.

(copi yma – papur ***gwyn***)

**5. MONITRO BUDDSODDIADAU EIDDO**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (copi yma – papur ***glas***)

**6. PRISIAD ACTIWARAIDD 2013: TRINIAETH PYLLAU CYFLOGWYR LLAI**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (copi yma – papur ***pinc***)

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur ***gwyrdd***)

**8. PRESENOLDEB YN CYNHADLEDD 'LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF)' AR 4 - 6 RHAGFYR 2013.**
***NODER BOD CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN AR 5 RHAGFYR 2013.***

**9. CYNHADLEDD BUDDSODDI LGC 4 – 6 MEDI 2013**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi yma – papur ***lelog***)

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymdrin a materion masnachol sensitif sef pris am gyfarpar meddalwedd a thrwyddedau. Gall datgelu y wybodaeth yma effeithio sefyllfa fasnachol y Cyngor drwy danseilio hyder cyflewnyr y byddai'r

Cyngor yn ymdrin a gwybodaeth mewn ffordd briodol a felly eu darbwyllo rhag cynnig i'r dyfodol. Gall datgelu y wybodaeth hefyd rhoi mantais i gystadleywyr drwy ddatgelu manylion prisiau a chynnigion y cwmni. Er fod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o wariant y Cyngor ar gontractau rhaid clorianu hynny yn erbyn y budd o sicyrhau fod gwybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei barchu er gwarchod gallu y Cyngor i ymdrin a'r farchnad yn briodol er sicyrhau gwerth am arian.

**11. UWCHRADDIO MEDDALWEDD GWEINYDDU PENSIYNAU I DDYGYMOD A CPLlL 2014.**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid

(copi ar wahân i aelodau'r pwyllgor yn unig)

# PWYLLGOR PENSIYNAU, 22.03.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Tom Jones (cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Peredur Jenkins, W. Tudor Owen, John P. Roberts a'r Cynghorydd Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATERION BRYS**

(Nid oedd y mater canlynol wedi ei gynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y Cadeirydd ei gynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd y derbyniwyd y wybodaeth ar ôl i'r rhaglen gael ei hanfon i'r aelodau)

**Sefyllfa Coleg Harlech**

Adroddodd y Pennaeth Cyllid ar sefyllfa ariannol fregus y coleg. Deellir nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoddi cymorth ariannol iddynt. Nododd y cyflogir 38 o staff yno sy'n talu i fewn i Gronfa Bensiwn Gwynedd a phe byddai'r coleg fel corff yn cael ei ddiddymu, yna byddai ei ymrwymiadau pensiwn yn disgyn ar weddill cyflogwyr y gronfa bensiwn, a bod y risg hwnnw wedi ei amcangyfrif yn fras i fod tua £2.3m. Bwriedir trafod y sefyllfa maes o law gyda Phennaeth y Coleg.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2012 fel rhai cywir.

**4. BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL, AMGYLCHEDDOL A MOESEGOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yr ystyriwyd yn y pwyllgor hwn ar 28 Medi 2012, adroddiad ar bolisi buddsoddi, yn benodol mewn cysylltiad â'r diwydiant tybaco, pryd y gofynnwyd am ymchwil er mwyn canfod sut mae cronfeydd pensiwn eraill yn ymdrin â buddsoddi moesegol ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn. Nododd bod gofyn i bob Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol ddarparu Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sy'n cydymffurfio â'r "Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulation 2009" ac mae'n hanfodol cynnwys i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesegol wrth ddewis, cadw neu werthu buddsoddiadau.

Cafwyd gwybodaeth oddi ar safleoedd we'r cronfeydd mawr yn Lloegr a gofynnwyd am wybodaeth gan y saith cronfa arall yng Nghymru ar eu hegwyddorion parthed yr ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol pan fuddsoddir. Yn ogystal, penderfynodd LAPFF, y byddai'n ddefnyddiol cael templed Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ar lywodraethu corfforaethol at ddefnydd cronfeydd sy'n aelodau. Ymgymerwyd ag arolwg o'r DEB, aelodau'r LAPFF a chronfeydd pensiwn byd-eang sy'n weithgar mewn ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl), er mwyn adnabod ymarfer gorau.

Nododd y swyddog bod y pwyslais ar faterion ACLl yn amrywio o gronfa i gronfa gyda rhai ag ymagwedd eang ac eraill gyda ystyriaethau mwy manwl. Ni ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw gronfa yn eithrio math penodol o fuddsoddiad ar sail ACLl.

Adolygir Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa yn 2014, yn dilyn cwblhau'r prisiad actiwariaid ar 31 Mawrth 2013. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried egwyddorion ACLl a'r defnydd priodol o dempled LAPFF ar gyfer ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol.

**PENDERFYNWYD cadw'r ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol cyfredol tan yr adolygiad llawn o'r Datganiad o'r Egwyddorion Buddsoddi yn 2014.**

## 5. STIWARDIAETH Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yr ystyriodd y pwyllgor hwn ar 25 Tachwedd 2011, gyflwyniad o'r Cod Stiwardiaeth pryd y cytunwyd â'r egwyddor o gyhoeddi Datganiad o Gydymffurfiad â'r Cod. Cytunodd y pwyllgor hefyd y dylai'r Gronfa Bensiwn ymuno â'r "Local Authority Pension Fund Forum" (LAPFF) er mwyn cryfhau'r trefniadau stiwardiaeth a chymryd rhan mewn gweithrediadau gan LAPFF ar ran yr aelodau, ac felly cael dylanwad mwy fel grŵp na gweithio fel cronfeydd unigol. Cytunodd y pwyllgor ar aelodaeth ar sail prawf, gydag adroddiad yn ôl erbyn Ebrill 2013.

Nododd y swyddog bod LAPFF yn bodoli er mwyn hyrwyddo diddordebau buddsoddi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac er mwyn uchafu eu dylanwad fel cyfranddalwyr wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraeth gorfforaethol yn y cwmniau y buddsoddir ynddynt. Mae LAPFF yn dod â nifer o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol at ei gilydd sy'n rhoddi cyfle i drafod materion buddsoddi ac adwaith cyfranddalwyr. Mae aelodaeth ar gael i bob cronfa bensiwn llywodraeth leol, ac ar hyn o bryd mae 55 cronfa bensiwn awdurdodau lleol yn aelodau gan gynnwys rhai o'r cronfeydd mwyaf yn y DU. £8,460 oedd y tanysgrifiad ar gyfer 2012/13.

Manylodd ar y buddion aelodaeth yn ogystal â'r Datganiad o Gydymffurfiad â'r Cod Stiwardiaeth. Nododd bod tâl aelodaeth flynyddol LAPFF o £8,460 yn darparu gwerth am arian i'r gronfa.

**PENDERFYNWYD**
**a) Bod y Gronfa Bensiwn yn parhau â'i aelodaeth o LAPFF.**
**b) Cymeradwyo a chyhoeddi'r Datganiad o Gydymffurfiad â'r Cod Stiwardiaeth.**

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Buddsoddi Blynyddol – hyn yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol.

Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2013/14 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2013/14 gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2013.

Nododd bod y gronfa wedi rhoddi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes"

Mewn perthynas â llif arian y gronfa bensiwn, nododd y swyddog bod mewnlif net o arian i'r gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol a chostau. Pan fydd lefel yr arian tros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi'r gronfa. Fel rheol, bydd oddeutu £5m yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol, fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rhai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod tros £20m.

Ar hyn o bryd mae holl arian tros ben y gronfa'n cael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y gronfa tros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian tros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg bod cronni'n caniatau manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartion er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafwm cyfnod y benthyciad ar gyfer sefydliadau'r Deyrnas Unedig wedi ei godi o flwyddyn i ddwy flynedd i adlewyrchu'r argymhellion hyn. Nodir y swm, ynghyd â'r hyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau, er cyfyngir at flwyddyn neu lai ar hyn o bryd, yn ddibynnol ar statws bob sefydliad.

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi'r gronfa ar gyfer setliadau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2013/14 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A o'r adroddiad) a'r rhestr gyfredol o wrthbartion (Atodiad C o'r adroddiad).**
**b) Gwneud cais i'r Cyngor ganiatau i arian tros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2013 ymlaen.**

## 7. CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LEOL CYMRU – GWEITHIO GYDA'N GILYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyfeirio at y posibilrwydd o gael llai o gronfeydd pensiwn yng Nghymru. Yn ddiweddar, gofynnwyd i bob Cronfa Bensiwn yng Nghymru gyfrannu £5,000 tuag at y gost o baratoi adroddiad fel rhan o brosiect a ymgymerwyd gan Is-Grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru. Paratowyd yr adroddiad drafft ac fe'i anfonwyd allan i ymgynghoriad â'r holl budd-gyfranogwyr gan gynnwys yr holl gyflogwyr gan ofyn am sylwadau erbyn diwedd Mawrth 2013.

Nododd bod yr is-grŵp o'r farn y byddai lleihau nifer y cronfeydd pensiwn yn creu arbediad ac y byddai cael cronfeydd mwy yn cael gwell dychweliadau. Prif argymhellion yr adroddiad yw -
a) Ystyrir bod mwy o gydweithio'n faes lle y gellir gwneud y mwyaf o arbedion tymor hir.
b) Creu achos busnes llawn am ddull buddsoddi cyffredin.
c) Creu strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru a rheoli'r cynlluniau cydweithio yn y dyfodol.
ch) Adeiladu ar y cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd a gwella cyflawniad, cysondeb ac effeithlonrwydd gweinyddiaeth.

'Roedd angen i'r pwyllgor ymateb i'r adroddiad. Gellid paratoi ymateb nawr, neu disgwyl hyd nes y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad gyda chyflogwyr yn hysbys. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at gymal 11 – Argymhelliad 5 o'r cwestiynau ymgynghori sy'n datgan "*Mae'r cysyniad o uno yn gronfeydd rhanbarthol neu'n Gronfa Gymreig yn gymhleth a byddai trosglwyddo'n broses gostus a hirwyntog fyddai hefyd yn arwain at golli rheolaeth yn lleol. Gall newid strategaethau ariannu hefyd fygwth sefydlogrwydd a pheri colli atebolrwydd lleol. Tra gallai fod gwerth ymchwilio ymhellach i hyn yn y dyfodol, ni argymhellir gwaith pellach ar yr adeg hon, yn enwedig lle credir mai'r modd o sicrhau'r enillion mwyaf yw drwy fwy o gydweithio a dull buddsoddi cyffredin yn benodol".*

**PENDERFYNWYD**
**a) Disgwyl hyd nes y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn hysbys cyn ymateb yn llawn i'r adroddiad drafft.**
**b) Ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn cytuno ag argymhelliad 5 o'r cwestiynau ymgynghori fel a nodir uchod.**

## 8. GYRFAOEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gynnig aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd i Gyrfaoedd Cymru.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr bod strwythur y Gwasanaeth Gyrfaoedd yng Nghymru ar sail rhanbarthol gyda bob ardal yn aelod o'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol berthnasol i'w ardal. 'Roedd Gyrfaoedd Gogledd Orllewin Cymru yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ffurfio Gyrfa Cymru o'r cyrff rhanbarthol blaenorol a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2012. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth o'r Gronfa Bensiwn yn parhau ar sail yr hen strwythur.

Nododd y byddai'r cwmni newydd yn dymuno bod yn aelod o un o'r Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol presennol yng Nghymru. Nid yw'r mater o ba gronfa fyddai'n derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwyr wedi ei ddatrys hyd yn hyn. Y prif reswm nad oes cytundeb yw'r diffygion a fodolai ym mhob cronfa mewn perthynas â'r cyrff rhanbarthol blaenorol a'r amharodrwydd ar ran unrhyw Gronfa i gymryd yr holl ddiffyg i'r dyfodol. Fel cydnabyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gymryd perchenogaeth tros y corff newydd os gellir cytuno ar y sefyllfa pensiynau.

Byddai'r Gronfa Bensiwn sy'n derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwr, yn wynebu nifer o risgiau megis –

- Sicrwydd cyllido ar gyfer Gyrfa Cymru yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r cyllid ar hyn o bryd ac er y byddant yn cymryd cyfrifoldeb tros y cwmni, nid yw hyn yn gwarantu cyllid i'r dyfodol.
- Gallai Llywodraeth Cymru benderfynu terfynu Gyrfaoedd Cymru yn y dyfodol a gadael diffyg sylweddol i'w gyllido gan y Gronfa Bensiwn a'r cyflogwyr eraill.
- Trosglwyddir y diffygion o'r cyn rhanbarthau o'i cronfeydd pensiwn cyfredol i'r gronfa newydd ac er y derbyniwyd taliad gan bob cronfa fel rhan-setliad o'r diffygion hyn, mae'r symiau'n parhau'n yn sylweddol. Wrth asesu'r diffygion hwn,

mae actiwariaid gwahanol yn defnyddio tybiaethau gwahanol. Wrth ddefnyddio tybiaethau cyfredol Cronfa Bensiwn Gwynedd, er mwyn prisio'r diffygion, byddai'r symiau'n codi gan fod Gwynedd yn defnyddio dull mwy pwyllog na'r mwyafrif o gronfeydd eraill yng Nghymru.

- Disgwylir i'r trosglwyddiad ddigwydd erbyn 1 Ebrill 2013, sy'n amserlen fer iawn yn ystod cyfnod pan ymgymerir â gwaith ychwanegol sylweddol gan yr uned weinyddiaeth mewn perthynas â'r gweithrediad system gyfrifiadurol newydd a darparu gwybodaeth ar gyfer prisiad actiwariaid 2013.
- Mae pencadlys y cwmni newydd ymhell o Wynedd, a byddai'n gallu effeithio'r gallu i fynychu cyfarfodydd cyflogwyr a chyflwyniadau yng Nghaernarfon.

Nododd ymhellach, er mwyn lliniaru risgiau ariannol, byddai'n ofynnol cael bond gan y cwmni newydd. Cytunir cyfrifiad y bond gyda'r gronfa bensiwn sy'n cymryd trosodd yr ymrwymiadau a adolygir yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol i dalu'r ymrwymiadau. Telir cost y bond gan y cwmni ac mae angen ei gynnwys mewn cynllun ariannol y cwmni.

Oherwydd y risgiau a nodir uchod, barn y swyddogion yw na ddylid cynnig aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd i Gyrfaoedd Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a pheidio a chynnig aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd i Gyrfaoedd Cymru.**

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol am gwmni a bod ganddynt hawl i ddisgwyl y byddai'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae amseriad yn bwysig ac nid oes gofyn cyhoeddus i ddatgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd. Mae'r budd cyhoeddus felly o blaid cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol am y tro.**

## 10. BUDDSODDIAD EIDDO

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi ymhellach i gyfarfod chwarterol o Banel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd yn Llundain ar 15 Chwefror 2013 parthed sefyllfa ddiweddaraf y buddsoddiad mewn Cronfa Triton UBS.

**PENDERFYNWYD**
**a) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i wneud unrhyw benderfyniad angenrheidiol cyn cyfarfod nesaf y Panel Buddsoddi, er mwyn gwarchod buddsoddiad y Gronfa Bensiwn.**
**b) Trafod y mater gyda Hymans Robertson yn y Panel Buddsoddi nesaf ym mis Mai 2013.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.20pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 7 Hydref 2013 |
| TEITL | Monitro Buddsoddiadau Eiddo |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL |

1 Ym mis Gorffennaf cawsom bapur drafft gan Hymans Robertson yn awgrymu sut y byddem yn monitro ein buddsoddiadau eiddo o hyn allan gan gofio ein bod bellach wedi dewis buddsoddi mewn 4 cronfa eiddo er mwyn gwasgaru'r risg.

2 Awgrymodd Hymans Robertson y dylid cael diwrnod cyfan yn monitro'r buddsoddiadau sydd gennym yn y maes eiddo gan y byddai hynny yn caniatáu i ni bwyso a mesur yr hyn a glywir gan y gwahanol reolwyr.

3 Fodd bynnag gan fod datblygiadau yn y maes yn symud yn araf iawn a chan ei fod yn faes mor anodd i symud i mewn ac allan ohono, awgrymwyd mai unwaith y flwyddyn oedd angen gweld y rhai oedd yn rhedeg y cronfeydd wyneb yn wyneb, gan adael i Hymans dynnu ein sylw os oedd unrhyw beth o bryder yn codi yn y cyfamser drwy eu hadroddiadau arferol

4 Byddai angen gweu'r syniad yma gyda'r rhaglen monitro bresennol ar gyfer yr holl reolwyr eraill.

5 Ar hyn o bryd 'rydym yn monitro'r rheolwyr ar y sail canlynol –

| **Cwmni** | **Cytundeb** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Fidelity | Ecwiti Byd eang | 2 waith y flwyddyn |
| Veritas | Ecwiti Byd eang | 2 waith y flwyddyn |
| Blackrock | Ecwiti Goddefgar | 1 waith y flwyddyn |
| Insight | Bondiau dychweliadau absoliwt | 2 waith y flwyddyn |
| UBS | Eiddo | 2 waith y flwyddyn |
| Partners Group | Ecwiti Preifat a Strwythurwaith | 1 waith y flwyddyn |

6 Ar ben hyn felly byddem eisiau monitro'r cronfeydd eiddo (3 ohonynt) o leiaf unwaith y flwyddyn ond gan dderbyn y byddai UBS yn cael eu gweld unwaith y flwyddyn hefyd yn hytrach na dwywaith y flwyddyn. Byddai hyn yn gyfystyr a chael "dwy sesiwn fonitro" ychwanegol y flwyddyn.

7 Gan dderbyn y byddai'n eithaf syniad gwrando ar y cronfeydd eiddo gyda'i gilydd, byddai'r drefn ganlynol yn cadw'r amlder a nodir yng nghymal 5 uchod ac yn cwrdd â'r cronfeydd eiddo gyda'i gilydd.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod Chwefror | Fidelity |
| | Veritas |
| | Blackrock |
| | |
| Cyfarfod Mai | UBS |
| | Lothbury |
| | Blackrock |
| | Threadneedle |
| | Insight |
| | |
| Cyfarfod Gorffennaf | Fidelity |
| | Veritas |
| | |
| Cyfarfod Tachwedd | Insight |
| | Partners Group |

7 Byddai cyfarfodydd Chwefror a Mai yn Llundain tra byddai cyfarfodydd Gorffennaf a Thachwedd yng Nghaernarfon.

8 Gwahoddir sylwadau ar y syniad yma gyda golwg ar ddechrau o Chwefror 2014 ymlaen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **7 HYDREF 2013** |
| **TEITL** | **PRISIAD ACTIWARAIDD 2013 – TRINIAETH PYLLAU CYFLOGWYR LLAI** |
| **PWRPAS** | **Penderfynu sut i drin pyllau cyflogwyr llai ym mhrisiad actiwaraidd 2013** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae actiwari y Gronfa Bensiwn yn gweithio ar brisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2013 ar hyn o bryd. Mae angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â threfniadau'r pyllau i gyflogwyr llai yn y prisiadau blaenorol.

## 2. SEFYLLFA GYFREDOL

Yn hanesyddol mae cyflogwyr bach wedi cael eu grwpio mewn dau bwll at ddibenion prisiad actiwaraidd teirblynyddol. Y prif reswm dros y trefniadau pyllau yw gwarchod cyflogwyr unigol rhag effaith llawn ymddeoliadau salwch na ellir eu fforddio i'r rhai gydag ychydig o weithwyr. Felly rhennir y risg o ymddeoliadau salwch dros y pwll ac mae pob cyflogwr yn y pwll yn talu'r un gyfradd cyfraniad cyflogwr.

Cydnabyddir bod rhai cyflogwyr felly yn talu cyfradd cyfraniad cyflogwr uwch neu lai na'r gyfradd y byddent y telir os nad oeddent yn y pwll. Felly mae elfen o gymhorthdal ar draws y cyflogwyr yn y pwll. Er nad yw hyn yn ddelfrydol, mae'r cyflogwyr i gyd yn cael y bydd o warchodaeth yn erbyn unrhyw gostau ymddeoliadau salwch a hyn oedd yr unig ffordd i leddfu yn erbyn digwyddiad o'r fath.

## 3. YSWIRIANT SALWCH

Erbyn hyn mae yswiriant yn erbyn ymddeoliadau salwch ar gael ac yn darparu ffordd arall i sicrhau'r risg i gyflogwyr llai. Canran o gyflogres y cyflogwr yw'r premiwm yswiriant yn yr un modd a'r cyfrifiad cyfraniadau cyflogwr. Ffigwr mynychol ar gyfer cost yr yswiriant yw 1.1% ar gyfer cyflogwyr bach a byddai'r gyfradd cyfraniad y cyflogwr fel y cyfrifir gan yr actiwari yn cael ei gostwng gan y canran a delir am yr yswiriant. Felly nid cost ychwanegol i'r cyflogwr yw hyn. Argaeledd yr yswiriant yn galluogi dadfyddino'r pyllau ac yn caniatáu i bob cyflogwr talu ei gyfraniadau ei hunan yn seiliedig ar eu gweithwyr.

Cydnabyddir y bydd rhai cyflogwyr yn wynebu cynnydd uwch na’r lleill yn eu cyfraniadau fel canlyniad i’r newid hon ac mae angen rheoli’r sefyllfa yn ofalus.

Bydd yswiriant salwch yn hanfodol ar gyfer yr holl gyflogwyr bach cyn gynted bod y pyllau yn cael eu diddymu er mwyn sicrhau nad ydynt yn wynebu risg o gostau uchel oherwydd ymddeoliadau salwch.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gan fod yswiriant salwch nawr ar gael argymhellir y dylid diddymu’r ddau bwll ar gyfer cyflogwyr bach a bod yr yswiriant salwch yn hanfodol ar gyfer y cyflogwyr perthnasol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **7 HYDREF 2013** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar ran y Gronfa Bensiwn** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar y 1af o Fawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn mynnu i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y disgwyliadau.

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DRhST) Cyngor Gwynedd am 2011/12, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd y DRhST gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2012. O ganlyniad, mae'n ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys 2011/12 yn erbyn y disgwyliadau.

## 2. Gweithgarwch Buddsoddi

Daeth Arweiniad diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau i rym ar 1 Ebrill 2010, ac roedd yn ailadrodd yr angen i flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Roedd hefyd yn argymell bod strategaethau i gynnwys asesu risg credyd, rhesymau ar gyfer benthyca cyn bod angen a'r defnydd o ymgynghorwyr trysorlys.

| **Balansau'r Gronfa Bensiwn** | Balans ar 31/03/2012 £m | Balans ar 31/03/2013 £m |
|---|---|---|
| Balansau | 3.4 | 7.4 |

Yn unol â chais Pwyllgor Pensiynau 23 Mawrth 2012, cyfunwyd arian y gronfa bensiwn gyda llif arian cyffredinol y Cyngor. Fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau ar 22 Mawrth 2013 mae'r trefniant yn parhau yn 2013/14. Mae cyfraddau llog yn isel iawn ar hyn o bryd ond nid oes rheswm dros newid y penderfyniad hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o le fuddsoddwyd yr arian cyfunedig yma yn ystod 2012/13.

| **Buddsoddiadau** | Balans ar 01/04/2012 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £'000 | Balans ar 31/03/2013 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 35,883 | 203,821 | (204,075) | 35,629 | 1.05 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi'u Cyfuno | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **35,883** | **203,821** | **(204,075)** | **35,629** | 1.05 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | (254) | |

Roedd diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi'r Cyngor ynglŷn â gwrthbartion sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys 2012/13. Roedd y buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adneuon gydag Awdurdodau Lleol eraill;
- Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian Net Sefydlog a Newidiol gyda statws credyd AAA;
- Cyfrifon ar alw ac adneuon gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd o bwysigrwydd systematig i system fancio eu gwlad (y DU, Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden, Y Swistir ac UDA).

## Risg Credyd

Caiff ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at statws credyd; amnewid diffyg credyd (credit default swaps); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP; unrhyw fecanweithiau cefnogi posib ynghyd â phris y cyfranddaliadau. Isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon a bennwyd ar gyfer strategaeth trysorlys 2012/13 oedd A-/A-/A3 ar draws asiantaethau credyd-raddio Fitch, S&P a Moody's.

Ym mis Mehefin, israddiwyd gan Moody's lu o fanciau sydd â gweithgareddau marchnadoedd cyfalaf byd-eang, gan gynnwys banciau'r DU sydd ar restr benthyciadau'r Cyngor - Barclays, HSBC, Royal Bank of Scotland/Natwest, Lloyds TSB Bank/Bank of Scotland, Santander UK plc – ynghyd â sawl banc nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU, ond ni chwympodd yr un o'u statws islaw trothwy lleiafswm statws credyd A-/A3 y Cyngor.

Mae ansawdd credyd gwrthbartïon wedi cael ei gynnal fel y dengys y Dadansoddiad Sgoriau Credyd isod. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn egluro'r sgôr credyd.

**Dadansoddiad Sgôr Credyd 2012/13**

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2012 | 4.98 | A+ | 4.93 | A+ | 27 |
| 30/06/2012 | 5.19 | A+ | 3.00 | AA | 36 |
| 30/09/2012 | 3.74 | AA- | 3.48 | AA | 68 |
| 31/12/2012 | 5.54 | A | 5.31 | A+ | 146 |
| 31/03/2013 | 5.17 | A+ | 4.97 | A+ | 81 |

**Hylifedd**
Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, bu i'r Cyngor gynnal lefel ddigonol o hylifedd drwy ddefnyddio Cronfeydd Arian Marchnad, adneuon dros nos a chyfrifon ar alw.

**Cynnyrch**
Ceisiodd y Cyngor optimeiddio enillion yn gymesurol â'r amcanion sefydlogrwydd a hylifedd. Cynhaliwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% drwy gydol y flwyddyn.

Ystyriodd y Cyngor ymateb priodol i reoli risg i amodau credyd ansicr a oedd yn dirywio yn Ewrop, sef byrhau aeddfediadau buddsoddiadau newydd. Arhosodd cyfraddau arian y farchnad tymor byr hefyd ar lefelau isel iawn a cafodd hyn effaith sylweddol ar incwm o fuddsoddiadau.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau yn Banc Heritable.**
Caewyd cyfrifon 2012/13 gan ddefnyddio'r disgwyliad y byddai cyfanswm o 88c/£ yn cael ei adennill. Ar yr amser yna roedd 77.25% wedi'i adennill, a disgwyliwyd 10.8% arall yn 2013/14. Cyhoeddwyd arweiniad pellach ar driniaeth cyfrifeg y trafodion gan CIPFA yn Mai 2013 a'i defnyddiwyd ar gyfer cyfrifon 2012/13.

16.73% oedd dosbarthiad diweddaraf gan yr arweinyddion sydd yn dod a'r cyfanswm a derbyniwyd hyd yn hyn i 94%. Mae'n bosib y bydd dosbarthiadau pellach yn y dyfodol.

**4. Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau derbyn yr adroddiad er gwybodaeth am sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa, ar y cyd ag arian y Cyngor yn 2012/13.**

**ATODIAD**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| **Statws Credyd Tymor Hir** | **Sgôr** |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |
| Heb ei sgorio | 11 |
| BB | 12 |
| CCC | 13 |
| C | 14 |
| D | 15 |

Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes. Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a buddsoddir a'r trothwy isaf cyfradd credyd A- i gwrthbartion buddsoddi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **7 HYDREF 2013** |
| **TEITL** | **CYNHADLEDD BUDDSODDI LGC, 4 – 6 MEDI 2013**<br>**“25 Mlynedd ar Ganol Dadl Pensiynau Llywodraeth Leol”** |
| **PWRPAS** | **Er mwyn hysbysu aelodau’r Pwyllgor Pensiynau o’r buddiannau a enillwyd wrth fynychu’r gynhadledd** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd Cynhadledd Buddsoddi LGC yn  y Celtic Manor Resort, Casnewydd eleni a mynychodd Cynghorydd Hywel Eifion Jones, Cynghorydd Dafydd Meurig a Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi.

## 2. DYLANWADAU ECONOMAIDD LLEOL

Cyflwyniad manwl gan Paul Johnson, Cyfarwyddwr yr Institute for Fiscal Studies oedd y sesiwn agoriadol. Esboniodd sut mae cyllid cyhoeddus a rhagolwg economaidd yn newid a sut maent yn gallu dylanwadu cronfeydd pensiwn.

## 3. SAFBWYNT CRONFA BENSIWN AR GYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL 2014

Esboniodd Jonathan Bunt, Prif Swyddog Cyllid, London Borough of Barking and Dagenham a Geik Drever, Cyfarwyddwr Pensiynau, West Midland Pension Fund sut bydd y cynllun newydd yn effeithio strategaethau cyllido a buddsoddi.

Pwysleisiodd Jonathan pwysigrwydd llif arian a sut mae rhan o’r gwaith cydweithio i rannu Prif Swyddogion yn cael effaith arno wrth i nifer yr aelodau gyda chyfraniadau uchel y gronfa bensiwn yn lleihau.

Esboniodd Geik yr effaith ar gronfa West Midland i sicrhau bod y nifer fawr o gyflogwyr yn y gronfa yn barod i weithredu’r cynllun newydd.

## 4. DATGUDDIAD MWY CRAFF I ECWITI BYD-EANG

Roedd y cyflwyniad gan Ben Kottler, Rheolwr Portffolio Sefydliadau guda MFS Investment Management yn ystyried datguddiad buddsoddi i’r marchnadoedd byd-eang ar sail dadansoddiad derbyniadau yn hytrach na phreswylfa'r cwmnïau y buddsoddir arian ynddynt. Er enghraifft mae nifer o gwmnïau Ewropeaidd yn gwerthu i America a marchnadoedd Allddod ac nid yw’r datguddiad hwn yn cael ei ystyried wrth asesu risg y buddsoddiadau.

## 5. Y GENHEDLAETH NESAF O GYFLEOEDD MEWN MARCHNADOEDD ALLDDOD

Rhoddodd Nicholas Davidson, Uwch Rheolwr Portffolio gyda Alliance Bernstein ei farn ar y 50 marchnad allddod nesaf a pam eu bod nhw'n ddeniadol ar gyfer buddsoddi gyda rhagolygon twf cryf a risg debyg i farchnadoedd allddod hanesyddol.

## 6. GWNEUD Y GORAU O DDEWISIADAU BUDDSODDI AR YR AMSER CYWIR

Yn ystod sesiwn rhyngweithiol a chadeiriwyd gan Nicola Mark, Pennaeth of Norfolk Pension Fund trafodwyd meddwl cyfredol ynglŷn â lle i fuddsoddi, beth i osgoi a sut i gyrraedd targedau cyllido. Datganodd sawl farn ond roedd y mwyafrif i weld yn cytuno cydweithio fel y ffordd ymlaen.

## 7. CYFLEOEDD MEWN EIDDO'R DU - YMATEB I DARGEDAU / DEDDFWRIAETH / LLEIHAU CARBON

Ystyriodd Don Jordison, Rheolwr Cyfarwyddwer Threadneedle Property Investments Ltd effaith targedau lleihau carbon ar bortffolios eiddo cyfredol a rhoddodd esiamplau o'r ffyrdd mae Threadneedle yn warchod ei eiddo ar gyfer y dyfodol wrth eu newid i fod mwy effeithiol gydag ynni. Cwestiwn y dylwn ofyn i ein rheolwyr eiddo - gan gynnwys Threadneedle!

## 8. OND SUT FYDD HYN HELPU CANLYNIADAU'R PRISIAD?

Roedd y sesiwn terfynol gyda'r teitl 'Straeon y tylwyth teg a diffygion y LGPS' gan Ronnie Bowie, Uwch Bartner gyda Hymans Robertson ac roedd, fel arfer, addysgiadol a difyrrus.

Canolbwyntiodd ar y prisiad i'w ddod a'r cymariaethau Hymans Robertson yn gwneud dros y cronfeydd LGPS ar dybiaethau cyson. Ei farn yw y bydd y canran lefelau cyllido yn 2013 yn lleihau ychydig a fydd y diffygion yn uwch. Dylai bod cydberthynas rhwng y lefel cyllido ond pan gymerir y cronfeydd wrth ddefnyddio tybiaethau cyson nid yw hyn yr achos bob tro. Pwysleisiodd y dylai bob cronfa gyda chynllun credadwy er mwyn cyllido'r diffyg. Datganodd hefyd nad oes cydberthynas rhwng maint y gronfa a'r dychweliadau buddsoddi.

## 9. CASGLIAD

Roedd digon o gyfleoedd i rwydweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi a chynrychiolwyr o gronfeydd eraill a thrafod eu materion cyfredol.

Safle ardderchog yw'r Celtic Manor ac roedd y tywydd yn ardderchog hefyd eleni a oedd yn caniatáu cinio barbiciw tu allan a danfon pobl adre gyda phrofiad delfrydol o'r safle a'u hymweliad i Gymru. Mae'r gynhadledd yn dychwelyd i'r safle eto yn 2014.